PWYLLGOR PENSIYNAU

11 IONAWR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Y Cynghorydd Hinchey (Cadeirydd), Y Cynghorydd Elsmore |
| Hefyd yn bresennol: | Gareth Henson, Christine Salter, Kumi Ariyadasa, Erin Kidd, Gary Watkins a Michael Prior |

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Jonathan Evans a’r Cynghorydd Graham Thomas.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

12 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2016 fel cofnod cywir.

13 : CRONFA FUDDSODDI CYMRU

Rhoddwyd diweddariad i aelodau ar y cynnydd o ran datblygu Cronfa Fuddsoddi Cymru. Cyfarfu cynrychiolwyr Cronfeydd Cymru â’r Gweinidog dros Lywodraeth Leol ar 16 Tachwedd i drafod y cynigion ar gyfer cronfa Cymru. Ar ôl y cyfarfod hwnnw, ysgrifennodd y Gweinidog i’r wyth awdurdod gweinyddu i gadarnhau derbyn y cynigion.

Dywedwyd wrth aelodau fod Cytundeb Rhyng-awdurdod Drafft (IAA) wedi’i lunio ac wedi’i ystyried yng nghyfarfod Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd a gynhaliwyd heddiw. Dywedodd y Cadeirydd wrth aelodau bod yr IAA drafft wedi'i newid yn sylweddol.

Y bwriad yw cael yr wyth awdurdod i gymeradwyo'r IAA yn eu cyfarfodydd Cyngor Llawn ar ddiwedd mis Chwefror neu ddechrau Mawrth 2017

Cyfeiriodd aelodau at y prisiad actiwaraidd o 82% a gofynnon nhw a gaiff cyd-gronfa Cymru effaith cadarnhaol. Dywedwyd wrth aelodau na fydd yn cyfeirio cynlluniau unigol y Cyngor er y byddai’n golygu y gallai fod mynediad gwell at drefniadau cyllid.

Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau Lleol fod cynnydd sy’n cael ei wneud wedi'i adrodd yn eu cyfarfodydd fodd bynnag, mae pryderon wedi’u codi ynghylch gyfraniad y Bwrdd Pensiynau Lleol at drefniadau llywodraethu. Dywedodd y Cadeirydd, yng nghyfarfod y Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd wrth ystyried yr IAA Drafft, y codwyd y mater y bydd dogfen yn cynnwys cyfeiriad penodol at gydgysylltu â Byrddau Pensiynau lleol a nodwyd eu bod yn rhan gyfreithlon o’r strwythur llywodraethu.

PENDERFYNWYD:

- Nodi’r cynnydd o ran datblygu Cronfa Fuddsoddiadau Cymru.

14 : PRISIAD ACTIWARAIDD 2016

Rhoddwyd diweddariad i aelodau. Nodwyd bod tybiau Demograffig wedi’u newid i ddangos canlyniad yr astudiaeth hirhoedledd. Nododd y data a’r dadansoddiad y gellid newid ffactorau disgwyliad oes wrth leihau effaith rhwymedigaethau a ragdybir y Gronfa.

Dywedwyd wrth aelodau mai 85% yw’r gymhareb gyllid cyfredol, gyda diffyg o £299m sy’n cymharu â chymhareb gyllid o 82% 3 blynedd yn ôl a diffyg o £311m. Mae cynyddiadau mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i dybiau ariannol sy’n gwaethygu wedi’u lleddfu gan ostyngiadau o ganlyniad i newidiadau mewn tybiau demograffig ac enillion gan fuddsoddiadau a chyfraniadau diffyg. Dywedwyd wrth aelodau fod adenillion buddsoddi yn gymharol iach.

Dywedwyd wrth aelodau bod angen i’r awdurdod gweinyddu gynnal a chyhoeddi ei Ddatganiad Strategaeth Cyllid (FSS) erbyn diwedd mis Mawrth a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

Mae'r adroddiad Prisiad a thystysgrif gyfraniad y cyflogwr yn cael eu paratoi ar hyn o bryd a chânt eu cyhoeddi gan yr Actiwarïaid erbyn 31 Mawrth 2017.

PENDERFYNWYD:

- Nodi cynnydd y prisiad teirblwydd
- Nodi’r amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi a chyhoeddi’r FSS.

15 : PERTHYNAS Â’R BWRDD PENSIYNAU LLEOL

Yn ei gyfarfod diwethaf ar 18 Hydref 2016, adolygodd y Bwrdd Pensiynau Lleol y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor o ran pensiynau a nododd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau. Gofynnodd y Bwrdd i’r Pwyllgor ystyried sut y gellid datblygu perthynas rhwng y ddau gorff i alluogi'r ddau ohonynt i gyflawni eu rolau perthnasol yn effeithiol.

Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau Lleol fod y Bwrdd yn falch bod y Pwyllgor Pensiynau wedi’i sefydlu a’i fod yn hyderus y bydd perthynas gweithio da a fydd o fudd i bawb sy’n rhan ohono. Gwahoddodd Aelodau’r Pwyllgor i fynychu Cyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau Lleol; gan ddweud ei fod yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn a bod llawer yn mynd iddynt ar y cyfan. Gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried ymestyn y Cylch Gorchwyl i gynnwys gweithio ynghyd wrth weinyddu’r Cynllun Pensiynau.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y dylai’r Pwyllgor Pensiynau a’r Bwrdd Pensiynau Lleol fod yn gweithio ynghyd, ond, teimlodd y dylen nhw ddilyn eu Cylch Gorchwyl eu hunain gan eu bod yn wahanol. Teimlwyd y dylid cyfnewid cofnodion yn ôl yr arfer, ac y dylai’r cadeiryddion fynychu cyfarfodydd fel arsylwr. Cafwyd awgrymiad y dylid ystyried trefnu cydgyfarfod anffurfiol unwaith y flwyddyn i gynnig platfform ar gyfer rhwydweithio a chyfnewid syniadau. Dywedwyd wrth aelodau fodd bynnag fod dim wedi’i gwblhau eto.

PENDERFYNWYD:

- Nodi, trafod ac ystyried y materion a godwyd ymhellach

16 : COFNODION Y PANEL BUDDSODDI AR 20 MEDI 2016

Mae'r eitem hon yn gyfrinachol ac nis cyhoeddir yn rhinwedd Paragraff 14 Rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Nodwyd cofnodion cyfarfod y Panel Buddsoddi ar 20 Medi 2016.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau ar ddydd Mercher 15 Chwefror 2017 am 5.00 yn YC 1.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.46 pm

***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.***